

## EVANS, JOHN (1723 - 1817) 'o'r Bala,' pregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** John Evans

**Dyddiad geni:** 1723

**Dyddiad marw:** 1817

**Priod:** Margaret Evans (née Roberts)

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** pregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yng Nglan'rafon, Wrecsam, 30 Hydref 1723, ond yn 1727 symudodd ei rieni i Adwy'r Clawdd (efe, rhwng 1750 a 1753, a roes y tir y codwyd ' Capel yr Adwy,' capel cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yn y Gogledd, arno); bu am dymor yn wehydd ac wedyn yng ngwaith plwm y Mwynglawdd, ond yn 1742 aeth i'r Bala, ac ailddechreuodd fel gwehydd; bu wedyn yn rhwymwr llyfrau, ac yn ddiweddarach ar ei fywyd yn ' tallow-chandler ' (yn ôl gweithred Capel yr Adwy yn 1804).

Yn 1744, priododd â Margaret, ferch y bardd [Morys ap Rhobert](#) o Lanuwchllyn; merch iddynt oedd gwraig [William Edwards](#) (1773 - 1853), yr emynydd. Ymaelododd yn seiat newydd y Methodistiaid Calfinaidd yn y Bala yn 1745, ac yn gynnar iawn dechreuodd deithio i gynghori yn yr ardaloedd oddi amgylch, ond nid cyn 1765 y cydnabyddwyd ef yn bregethwr swyddogol. Enillodd le mawr iddo'i hunan fel un o arweinwyr diogelaf Methodistiaeth yn y Gogledd; yr oedd yn hynod am ei ffraethineb, ond gyda hynny am ei sylwadaeth graff a'i farn ddoeth. Efe a ddyfeisiodd y cynllun i dalu am gapelau trwy gasgliad rheolaidd. Bu'n ddeheulaw i [Thomas Charles](#) pan ddaeth hwnnw i fyw yn y Bala. Erbyn diwedd y ganrif, yr oedd wedi tyfu'n ymgorfforiad megis o draddodiadau Methodistiaid y Gogledd, a phriodol ddigon fu i [Thomas Charles](#) argraffu yn *Y Drysorfa*, 1799, 1809-13, atgofion John Evans, dan y teitl ' Ymddyddan rhwng Scrutator a Senex,' (ailargraffwyd hwy ar wahân, Machynlleth, 1885). Priodol hefyd fu i John Evans, 'y gwr hynaf a pharchusaf yn y Corff,' gymryd rhannau arweiniol y gwasanaeth ordeinio cyntaf yn y Gogledd, 19 Mehefin 1811. Bu farw 12 Awst 1817, a chladdwyd yn Llanycil.

John Evans a gyfieithodd yn 1759 waith John Wesley, *Y Prif Feddiginiaeth, sef Physygywriaeth yr Oesoedd Gynt*, ac yn 1761 ei *Reolau a Threfniadau yr Unol Gymdeithasau*, ond ymddengys mai ei gyd-drefwr [Thomas Foulkes](#) a ddug y draul o'u cyhoeddi.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd (Trefriw 1820)*

*Y Geiniogwerth*, 1849

W. Williams, *Methodistiaeth Dwyrain Meirionydd* (1902)

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908) (defnyddier y fynegai)

H. Llew Williams, *Hanes y Methodistiaid Calфинаidd yn Adwy'r Clawdd* (1947)

Gildas Tibbott, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, 1961, 26-35, 53-60

Goronwy Prys Owen, *Atgofion John Evans y Bala* (1997)

a'r llyfrau arferol ar hanes cynnar y M.C.

## Darllen Pellach

J. Morgan Jones, W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd (1895-1897)* ii, tt.20-33

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733414](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733414)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

